

Adolygiad Ystadegau Cydraddoldeb – Equalities Statistics Review

f3 Hydref – v3 October 2024



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

- ❑ Dadansoddiad o'r ystadegau lleol a chenedlaethol diweddaraf ar gyfer y naw nodwedd warchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- ❑ Nod yr adolygiad yw helpu i ddeall amrywiaeth poblogaeth Abertawe, amrywiadau lleol, sut y mae wedi newid a beth allai ddigwydd yn y dyfodol.
- ❑ Bydd yn llywio ac yn cefnogi Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 y cyngor.
- ❑ Mae'r adolygiad yn cynnwys ystadegau o'r Cyfrifiad cenedlaethol diweddaraf (2021), gan gynnwys data ar rai nodweddion am y tro cyntaf.
- ❑ Mae ffeil ddata fanylach hefyd ar gael i ategu adroddiad yr adolygiad.
- ❑ An analysis of the latest local and national statistics for the nine protected characteristics under the Equality Act 2010.
- ❑ The review aims to help understand the diversity of Swansea's population, local variations, how it has changed and what may happen in future.
- ❑ It will inform and support the Council's Strategic Equality Plan 2024-28.
- ❑ The review includes statistics from the latest national Census (2021), including data on some characteristics for the first time.
- ❑ A more detailed data file is also available to supplement the review report.

Oed (1)

- ❑ Amcangyfrifon poblogaeth blynyddol yn ôl oedran a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) - mae'r diweddaraf ar gyfer canol 2023, yn seiliedig ar ganlyniadau Cyfrifiad 2021.
- ❑ O fewn poblogaeth Abertawe (cyfanswm o 246,700, canol 2023), mae tua 17% yn blant (0-15 oed), ychydig yn is na chyfartaledd Cymru a Chymru a Lloegr (CaL).
- ❑ Mae cyfran uwch o bobl ifanc (16-24 oed), yn Abertawe, yn rhannol oherwydd myfyrwyr.

Age (1)

- ❑ Annual population estimates by age published by Office for National Statistics (ONS) – the latest are for mid-2023, based on Census 2021 results.
- ❑ Within Swansea's population (total 246,700, mid-2023), around 17% are children (aged 0-15), slightly below Wales and England & Wales (E&W) averages.
- ❑ Higher proportion of young people (age 16-24) in Swansea, in part due to students.

Oed (2)

- ❑ Mae tua 62% o bobl yn Abertawe rhwng 16-64 oed (Cymru 61%, CaL 63%), a thros 20% yn 65+ oed (Cymru 22%, CaL 19%).
- ❑ O fewn wardiau Abertawe, Townhill, Penderi a Penlle'r-gaer mae proffil iau, gydag ardaloedd de-orllewin Abertawe a Gŵyr yn hŷn yn gyffredinol.
- ❑ Bu newid cyffredinol cyfyngedig yn y boblogaeth yn ystod y deng mlynedd diwethaf (+3%, 2013-2023), ond mae cyfraddau twf uwch parhaus ymhlith pobl 65+ oed (+11%, 2013-2023).

Age (2)

- ❑ Around 63% in Swansea are aged 16-64 (Wales 61%, E&W 63%), and over 20% aged 65+ (Wales 22%, E&W 19%).
- ❑ Within Swansea, Townhill, Penderry and Penllergaer wards have a younger profile, with south-west Swansea and Gower areas generally older.
- ❑ Limited overall population change in last ten years (+3%, 2013-2023) but continued higher growth rates among people aged 65 & over (+11%, 2013-2023).

Dyletswydd (1)

- ❑ Mae amrywiaeth o fesurau ar gael, gan gynnwys ffynonellau arolygon a gweinyddol.
- ❑ Mae diffiniad y Cyfrifiad yn cynnwys pobl y mae eu *cyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol hirdymor yn cyfyngu ar eu gweithgareddau pob dydd* - yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.
- ❑ Yng Nghyfrifiad 2021, roedd 53,500 o breswylwyr Abertawe (22% o'r holl bobl) yn anabl (roedd gweithgareddau o ddydd i ddydd yn cyfyngu 'llawer' neu 'ychydig'), yn uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr.

Disability (1)

- ❑ A range of measures are available, including survey and administrative sources.
- ❑ Census definition includes people whose *day-to-day activities are limited by long-term physical or mental health conditions or illnesses* – in line with the Equality Act.
- ❑ In the 2021 Census, 53,500 Swansea residents (22% of all people) were disabled (day-to-day activities limited 'a lot' or 'a little'), above Wales and England averages.

Dyletswydd (2)

- ❑ Mae arolygon eraill yn dangos bod gweithgarwch economaidd a chyflogaeth yn sylweddol is i bobl anabl o oedran gweithio, ac mae diweithdra yn uwch (data APB).
- ❑ Mae data gweinyddol yn cynnwys cofrestrau o bobl ag anableddau dysgu neu anableddau corfforol neu synhwyraidd (LIC) a hawlwr budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd (AGPh).
- ❑ Mae bron i 14% yn hawlio budd-daliadau anabledd yn Abertawe (Awst 2022), sy'n uwch na chyfraddau Cymru a Chymru a Lloegr.
- ❑ Bu gostyngiad bach yn nifer y bobl anabl yn Abertawe rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021, ond cynnydd o 3,000 (10%) yn y rheini sy'n hawlio budd-dal anabledd (2012 i 2022).

Disability (2)

- ❑ Other surveys indicate that economic activity and employment is significantly lower for working age disabled people, and unemployment is higher (APS data).
- ❑ Administrative data includes registers of people with learning disabilities or physical or sensory disabilities (WG) and claimants of disability-related benefits (DWP).
- ❑ Almost 14% claim disability benefits in Swansea (August 2022), above Wales and England & Wales rates.
- ❑ Small fall in number of disabled people in Swansea between 2011 and 2021 Census, but 3,000 (10%) increase in disability benefit claimants (2012 to 2022).

Ailbennu rhywedd

- ❑ Darparodd Cyfrifiad 2021 yr ystadegau swyddogol cyntaf am bobl drawsryweddol.
- ❑ Atebodd 94% o bobl 16+ oed yn Abertawe'r cwestiwn gwirfoddol: *“Ydy'r rhywedd rydych chi'n uniaethu ag ef yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsoch chi eich geni?”*
- ❑ Atebodd 864 o bobl yn Abertawe (0.4%) "Na", gan gynnwys dim ymateb ysgrifenedig (320 o bobl), dyn traws (146), menyw drawsryweddol (160), anneuaid neu hunaniaeth arall (238).
- ❑ Mae data ar gael ar lefel daearyddiaeth ACEHG, ond mae dadansoddiad aml-amrywedd cyfyngedig posib.

Gender reassignment

- ❑ 2021 Census provided the first official statistics about people who are transgender.
- ❑ 94% of people aged 16+ in Swansea answered the voluntary question: *“Is the gender you identify with the same as your sex registered at birth?”*
- ❑ 864 people in Swansea (0.4%) answered “No”, including no write-in response (320 people), trans man (146), trans woman (160), non-binary or other identity (238).
- ❑ Data available to MSOA geography level, but limited multi-variate analysis possible.

Priodas a phartneriaeth sifil

- ❑ Y Cyfrifiad yw'r brif ffynhonnell ddata ar statws priodas a phartneriaeth sifil.
- ❑ Mae categorïau ymateb ac allbwn y Cyfrifiad bellach yn adlewyrchu deddfwriaeth ddiweddar ar bartneriaethau sifil a phriodasau o'r un rhyw.
- ❑ Yn 2021, roedd 81,400 o bobl 16+ oed yn Abertawe (41%) yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig, sy'n is na chyfartaledd Cymru a Chymru a Lloegr.
- ❑ Yn 2021, roedd 5,400 yn llai o oedolion yn Abertawe wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig nag yn 2011.
- ❑ Mae ystadegau blynyddol ar nifer y priodasau yn ôl yr ardal lle digwyddodd y priodasau hefyd wedi'u cyhoeddi. Cafodd pandemig a chyfyngiadau COVID-19 effaith fawr ar ffigurau 2020 ond maent wedi gwella ers hynny (hyd at 2022).
- ❑ Bu cyfran gynyddol o seremonïau sifil, yn hytrach na chrefyddol (tueddiadau 2009-19).

Marriage and civil partnership

- ❑ The Census is the main source of data on marriage and civil partnership status.
- ❑ Census response and output categories now reflect recent legislation on civil partnerships and same-sex marriages.
- ❑ In 2021, 81,400 people aged 16+ in Swansea (41%) are married or in a registered civil partnership, below Wales and England & Wales averages.
- ❑ In 2021, there are 5,400 fewer adults in Swansea married or in a registered civil partnership than in 2011.
- ❑ Annual statistics on number of marriages by area of occurrence are also published. 2020 figures highly impacted by Covid-19 pandemic and restrictions but have recovered since (to 2022).
- ❑ Increasing proportion of civil, rather than religious, ceremonies (2009-19 trends).

Beichiogrwydd a mamolaeth

- ❑ Mae ystadegau ar feichiogi, genedigaethau a ffrwythlondeb, a chyfraddau cysylltiedig, yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol gan SYG gan ddefnyddio systemau gweinyddol sefydledig.
- ❑ Mae cyfraddau geni a ffrwythlondeb yn Abertawe yn tueddu i fod ychydig yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.
- ❑ Bu gostyngiad lleol a chenedlaethol diweddar mewn genedigaethau a chyfraddau – ganwyd tua 300 yn llai (14%) o fabanod yn Abertawe yn 2022 nag yn 2017 (Cymru: -13%, Cymru a Lloegr: -11%).
- ❑ Amrywiad lleol mewn cyfraddau geni a ffrwythlondeb fesul ward, o 3 genedigaeth fyw fesul 1,000 o'r boblogaeth yn Mayals i 14 yn Townhill (ystadegau 2022).
- ❑ Mae cyfraddau is yn tueddu i fod mewn ardaloedd â phroffil oedran hŷn neu ardal sydd â mwy o fyfyrwyr, gyda chyfraddau uwch mewn ardaloedd trefol llai cefnog neu mewn ardaloedd lle mae tai wedi'u hehangu'n ddiweddar.

Pregnancy and maternity

- ❑ Statistics on conceptions, births and fertility, and associated rates, are published annually by ONS using established administrative systems.
- ❑ Birth and fertility rates in Swansea tend to be slightly lower than national averages.
- ❑ Recent local and national reductions in births and rates – around 300 (14%) fewer babies born in Swansea in 2022 than 2017 (Wales: -13%, England & Wales: -11%).
- ❑ Local variation in birth and fertility rates by ward, from 3 live births per 1,000 population in Mayals to 14 in Townhill (2022 statistics).
- ❑ Lower rates tend to be in areas with an older age profile or more students, with higher rates in less affluent urban areas or where near recent housing expansion.

Hil (1)

- ❑ Y Cyfrifiad yw'r brif ffynhonnell data sy'n ymwneud â hil, yn arbennig ethnigrwydd, a nodweddion poblogaeth eraill fel hunaniaeth genedlaethol a gwlad enedigol.
- ❑ Yng Nghyfrifiad 2021, roedd 8.6% o breswylwyr Abertawe o grŵp ethnig heb fod yn wyn, yn uwch na chyfartaledd Cymru (6.2%), ond yn is na Chymru a Lloegr (18.3%).
- ❑ Y grwpiau ethnig heb fod yn wyn mwyaf yn Abertawe yn 2021 oedd Bangladeshaidd (2,865 o bobl / 1.2% o'r cyfanswm), Asiaidd Arall (2,528 / 1.1%), Affricanaidd (2,227 / 0.9%), Indiaidd (2,172 / 0.9%) a Tsieineaidd (1,932 / 0.8%).

Race (1)

- ❑ The Census is the main source of data related to race, in particular ethnicity, and other population characteristics such as national identity and country of birth.
- ❑ In the 2021 Census, 8.6% of Swansea residents were from a non-white ethnic group, above the Wales average (6.2%), but below England & Wales (18.3%).
- ❑ The largest non-white ethnic groups in Swansea in 2021 were Bangladeshi (2,865 people / 1.2% of total), Other Asian (2,528 / 1.1%), African (2,227 / 0.9%), Indian (2,172 / 0.9%) and Chinese (1,932 / 0.8%).

Hil (2)

- ❑ Rhwng 2011 a 2021, cynyddodd nifer amcangyfrifedig y bobl yn Abertawe o grŵp ethnig heb fod yn wyn o tua 14,300 i 20,400 (+6,100 neu 43%).
- ❑ Yn y Cyfrifiad ysgolion diweddaraf (Ionawr 2023), nododd 19.9% o'r holl ddisgyblion 5 oed neu hŷn mewn ysgolion a gynhelir yn Abertawe eu bod yn 'Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol'.
- ❑ Roedd y poblogaethau grwpiau ethnig leiafrifol mwyaf yn 2021 yn wardiau trefol Y Castell (3,511 / 26.6%), Uplands (2,309), Sgeti (1,938) a'r Glannau (22.8%).

Race (2)

- ❑ Between 2011 and 2021, the estimated number of people in Swansea from a non-White ethnic group increased from around 14,300 to 20,400 (+6,100 or 43%).
- ❑ In the latest Schools Census (January 2023), 19.9% of all pupils aged 5 or over at maintained schools in Swansea identified as 'Black, Asian and minority ethnic'.
- ❑ The largest ethnic minority group populations in 2021 were in the urban wards of Castle (3,511 / 26.6%), Uplands (2,309), Sketty (1,938) and Waterfront (22.8%).

Crefydd neu gred

- ❑ Y Cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell o ddata lleol ar grefydd. Mae'n gwestiwn gwirfoddol am ymlyniad crefyddol, heb ystyried arfer go iawn, cred neu ymdeimlad o berthyn.
- ❑ Yn 2021, Cristnogaeth oedd y brif grefydd o hyd yn Abertawe (tua 98,500 / 41%), er ei bod wedi gostwng tua 33,000 o bobl neu 25% o 2011.
- ❑ Roedd bron i 5% yn uniaethu â chrefydd arall yn 2021, gyda thua 7,700 (3.2%) yn nodi bod eu crefydd yn Fwslimaidd – cynnydd o tua 2,300 (+41%) ers 2011.
- ❑ Yn Abertawe, nid oedd gan dros 47% o bobl unrhyw gredoau crefyddol ac ni wnaeth 7% ateb na datgan cred; gyda chynnydd o 31,500 o bobl (+39%) heb unrhyw grefydd ers 2011.

Religion or belief

- ❑ The Census is the only source of local data on religion. It is a voluntary question about religious affiliation, irrespective of actual practice, belief or belonging.
- ❑ In 2021, Christianity remains the predominant religion in Swansea (around 98,500 / 41%), although falling by around 33,000 or 25% from 2011.
- ❑ Almost 5% identified with another religion in 2021, with around 7,700 (3.2%) stating their religion as Muslim – increasing by around 2,300 (+41%) since 2011.
- ❑ In Swansea, over 47% held no religious beliefs and 7% did not answer or state a belief; with an increase of 31,500 people (+39%) with no religion since 2011.

Rhyw

- ❑ Cyhoeddir poblogaeth fesul rhyw yn flynyddol drwy amcangyfrifon canol blwyddyn swyddogol y SYG.
- ❑ Roedd 124,100 o boblogaeth Abertawe yn 2023 yn fenywod (50.3%) a 122,600 yn ddynion.
- ❑ Mae'r cymarebau dynion i fenywod yn Abertawe (nifer y gwrywod yn y boblogaeth fesul 100 o fenywod) yn 98.7 yn gyffredinol, ond maent yn gostwng o 106.7 ar gyfer 0-15 oed (yn bennaf oherwydd mwy o enedigaethau gwrywaidd na benywaidd) i 82.1 ar gyfer 65+ oed (oherwydd disgwyliad oes dynion is).
- ❑ Mae amrywiadau lleol mewn cymarebau dynion i fenywod (canol 2022), yn amrywio o 87.0 o wrywod fesul 100 o fenywod yn West Cross i 137.8 yn ward y Glannau.
- ❑ Ar y cyfan gwnaeth y disgwyliad oes yn Abertawe ostwng tua 0.6 mlynedd ar gyfer dynion a menywod dros y 10 mlynedd i 2020-22.

Sex

- ❑ Population by sex is published annually via the official ONS mid-year estimates.
- ❑ 124,100 of Swansea's population in 2023 was female (50.3%) and 122,600 male.
- ❑ Male to female ratios in Swansea (the number of males in the population per 100 females) are 98.7 overall, but reduce from 106.7 at ages 0-15 (due mainly to more male than female births) to 82.1 for age 65+ (due to lower male life expectancy).
- ❑ Local variations in male to female ratios (mid 2022), ranging from 87.0 males per 100 females in West Cross to 137.8 in Waterfront ward.
- ❑ Overall life expectancy in Swansea declined slightly for both males and females, by approx. 0.6 years, over the ten years to 2020-22.

Cyfeiriadedd rhywiol

- ❑ Darparodd Cyfrifiad 2021 yr ystadegau swyddogol cyntaf ar lefel leol am gyfeiriadedd rhywiol.
- ❑ Gofynnwyd y cwestiwn gwirfoddol i bobl 16+ oed: *“Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio orau eich cyfeiriadedd rhywiol?”* Yn Abertawe, atebodd 92% o bobl y cwestiwn hwn.
- ❑ Atebodd 175,739 o bobl yn Abertawe (88.8% o’r holl 16+) "Syth neu Heterorywiol" (Cymru a Lloegr a Chymru, 89.4%).
- ❑ Roedd tua 6,704 o bobl (3.4%) yn Abertawe yn uniaethu â chyfeiriadedd LHD+ ("Hoyw neu Lesbiaidd", "Deurywiol" neu "Cyfeiriadedd rhywiol arall").
- ❑ Mae data ar gael ar lefel ACEHG, gyda chyfran yr oedolion a nododd fod ganddynt gyfeiriadedd LHD+ ar ei huchaf ym Mrynmill (8.8%), yng nghanol Abertawe (7.8%) ac yn Uplands (6.5%).

Sexual orientation

- ❑ The 2021 Census provided the first official statistics at a local level about sexual orientation.
- ❑ People aged 16+ were asked the voluntary question: *“Which of the following best describes your sexual orientation?”* In Swansea, 92% answered this question.
- ❑ 175,739 people in Swansea (88.8% of all 16+) answered "Straight or Heterosexual" (Wales and England & Wales both 89.4%).
- ❑ In total, 6,704 people in Swansea (3.4%) identified with an LGB+ orientation ("Gay or Lesbian", "Bisexual" or "Other sexual orientation").
- ❑ Data is available to MSOA level, with the proportion of adults who identified with an LGB+ orientation being highest in Brynmill (8.8%), Central Swansea (7.8%) and Uplands (6.5%).